

No.

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2021

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd S. Griffiths (Cadeirydd); Cyngorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr J. Aviet, J.E. Charles, O. Griffiths, T.H. Jarvie, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr B.T. Gray a E. Williams.

334 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

335 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

336 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

337 CYFLWYNIAD – MAETHU CYMRU -

Amy McArdle, Cydlynnydd Marchnata a Recriwtio, Bro Morgannwg, gyflwynodd y cyflwyniad. Diben y cyflwyniad oedd cynghori'r aelodau bod Narrative Edge (ymgyngoriaeth gyfathrebu a gomisiynwyd gan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (NFF) rhwng mis Awst 2018 a mis Awst 2019 wedi gweithio gyda gweithgor enwebedig a grymus sy'n cynrychioli gwasanaethau maethu Awdurdodau Lleol ledled Cymru i gyd-greu cynnig brand ar gyfer Maethu Awdurdodau Lleol, a fyddai'n cefnogi recriwtio a chadw mwy o ofalwyr maeth ar gyfer y 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru. Roedd y brand bellach wedi'i gwblhau, ei gymeradwyo a'i lansio ym mis Gorffennaf 2021.

Roedd Maethu Awdurdodau Lleol yn wynebu her recriwtio. Roedd mwy o blant ag angen lleoliadau maeth na gofalwyr cofrestredig. Roedd Timau Maethu

No.

Awdurdodau Lleol ledled Cymru wedi penderfynu gweithredu, er mwyn cynyddu'n sylweddol nifer ac ystod y gofalwyr maeth a recriwtiwyd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i dimau maethu a recriwtio Awdurdodau Lleol ledled Cymru feddwl yn fwy, i gyfuno eu hymdrechion a'u harbenigedd i greu effaith genedlaethol sylweddol ar ymwybyddiaeth bod maethu yn opsiwn, ac mai maethu gyda'r Awdurdod Lleol oedd yr opsiwn gorau. Enw'r cydweithio newydd oedd Maethu Cymru.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, dywedodd y Cydgysylltydd Marchnata a Recriwtio gyda chymorth Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ymhellach:

- Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd â phroses baru sy'n helpu i lywio ei ymrwymiad i leoli pob plentyn yn y lleoliad mwyaf priodol. Gwnaed pob ymdrech i baru anghenion plentyn, er y cydnabuwyd bod gallu'r Cyngor i wneud hyn yn gwella pe gallai gynyddu nifer ac amrywiaeth y lleoliadau.
- Mewn ymateb i gwestiwn am drosiant staff gwaith cymdeithasol, tynnodd swyddogion sylw at bwysigrwydd parhad lle bynnag y bo modd a'r gwerth a roddwyd gan y gwasanaeth ar ei benderfyniad i ddatblygu Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a weithiodd yn agos gyda'i Dîm Lleoliadau. Cefnogwyd gofalwyr maeth gan eu Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol ac roedd gan bob plentyn Weithiwr Cymdeithasol. Roedd gan bob plentyn hefyd Gynllun Gofal a Swyddog Adolygu Annibynnol a helpodd i sicrhau cysondeb o ran sut yr oedd anghenion plentyn yn cael eu deall a'u bodloni. Roedd llawer o ofalwyr maeth y Fro wedi bod yn ofalwyr ers blynyddoedd lawer a chroesawyd gofalwyr newydd i'r Fforwm Gofalwyr Maeth.
- Byddai'r angen i gynyddu nifer y gofalwyr sydd ar gael bob amser yn berthnasol oherwydd bod gofalwyr sydd eisoes wedi cofrestru yn cyrraedd eu capasiti a/neu'n derbyn lleoliadau hirdymor. Drwy gynyddu nifer y gofalwyr maeth newydd a gymeradwyir a chynyddu amrywiaeth a galluoedd teuluoedd maeth cofrestredig, byddai gan y Cyngor ddewis ehangach o gartrefi maeth a gwell paru lleoliadau.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Gray ei fod yn edrych ymlaen at lansio'r hysbyseb deledu genedlaethol o ddydd Llun 20 Medi a galwodd ar holl Aelodau Etholedig y Cyngor i hyrwyddo Maethu Cymru mor eang â phosibl i gefnogi cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ofalwyr maeth.

ARGYMHELLIR – Y diolchir i swyddogion am eu cyflwyniad cadarnhaol ac addysgiadol.

Rhesymau dros yr argymhellion

Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a gafwyd o ran cydweithrediad Maethu Cymru i gynyddu nifer ac ystod y gofalwyr maeth a recriwtiwyd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol yn sylweddol.

338 CAU CARTREFI GOFAL PRESWYL ANNIBYNNOL (CYF) -

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y cyfeiriad o Gyfarfod y Cabinet ar 19 Gorffennaf 2021 i sicrhau bod Aelodau Craffu yn cael cyfle i ystyried y materion a geir yn yr adroddiad.

O ran cau cartrefi gofal Island View (Ynys y Barri) a Tower Hill (Penarth), dywedodd y Cyfarwyddwr na fyddai'r Cyngor wedi dewis cael gwared ar gymaint o gapasiti i gyd ar yr un pryd, fodd bynnag, roedd trosglwyddo preswylwyr i leoliadau amgen wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Fel mater atodol, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r aelodau am yr anawsterau sylweddol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu o ran cael gafael ar ofal cartref a dywedodd fod tua 60 o unigolion yn aros i dderbyn pecynnau gofal cartref newydd. Er cyd-destun, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cyflenwad gofal cartref wedi cynyddu gan 22% dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd N. Thomas fod Bro Morgannwg yn ardal ymddeol ddeniadol, a bod ar rai unigolion ofn y syniad o ofal preswyl felly, aeth hyn gryn ffordd tuag at esbonio'r cynnydd yn y galw am becynnau gofal cartref. Roedd effeithiau Coronafeirws mewn cartrefi gofal hefyd wedi cynyddu lefelau pryder yn unigolion sy'n wynebu gofal preswyl. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr mai peidio â chynyddu nifer yr opsiynau sefydliadol ar gyfer gofal yn y Fro oedd bwriad strategol y Cyngor o hyd a'r gofal a ddarperir yng nghartrefi'r unigolyn ei hun oedd y dull a ffefrir o hyd.

Yna, dywedodd y Cynghorydd Gray fod y Cabinet yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol o ran gofal cartref a byddai'n ystyried hyn mewn perthynas â newidiadau mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. Roedd y garfan o 60 o unigolion yn amrywio'n barhaus yn seiliedig ar yr anghenion a'r amgylchiadau unigol ac roedd cryfder y Cyngor o ran cyfathrebu â'r sectorau cartref a phreswyl cyn ac yn ystod y pandemig cenedlaethol wedi arwain at rannu syniadau gan roi'r cyngor mewn sefyllfa dda ar gyfer symud ymlaen.

ARGYMHELLIR - Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad atodedig.

Rhesymau dros yr argymhellion

Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod a'i fod yn cael cyfle i ystyried y materion a gynhwysir yn adroddiad y Cabinet.

339 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 4 ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 wrth gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

ARGYMHELLIR -

- (1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- (2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.
- (3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i sicrhau fodloni ei ofynion o ran perfformiad a amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.
- (3) Sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgor Craffu perthnasol.